*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adrodd i'r | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **18 Medi 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones – Pennaeth Cynllunio Corfforaethol, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad: Ebrill – Mehefin 2023** |

**Pwrpas yr Adroddiad**

1 Darparu gwybodaeth am weithgarwch digwyddiadau yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24; perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod; a gweithgareddau digwyddiadau nodedig eraill.

**Crynodeb Gweithredol**

2 Yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24, aeth y Gwasanaeth at 1,635 o ddigwyddiadau brys. Mae hyn yn gynnydd o 3.8% o'i gymharu â'r un cyfnod ym mlwyddyn ariannol 2022/23 (1,575).

3 Cynyddodd y presenoldeb mewn argyfyngau nad ydyn nhw'n danau, a ddosberthir fel Galwadau Gwasanaeth Arbennig (SSC) 1.5% i 332. Daw hyn yn dilyn newid polisi yn ystod 2021/22 ynghylch mynychu SSC, i roi mwy o gymorth i'r cyhoedd ac asiantaethau partner, gan gynyddu amlygrwydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn y gymuned ar yr un pryd.

4 Cynyddodd nifer y tanau damweiniol yn y cartref (ADF) yr aethpwyd atyn nhw yn ystod y cyfnod adrodd i 89, o gymharu ag 81 yn ystod 2022/23. Mae'n bleser adrodd, fodd bynnag, na fu unrhyw farwolaethau damweiniol oherwydd tanau yn y cartref yn ystod chwarter cyntaf 2023/24, er y bu cynnydd yn nifer yr anafiadau difrifol, o 0 i 2, o gymharu â 2022/23. Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i ddarparu ymyriadau atal tân a mentrau i gefnogi diogelwch tân yng nghartrefi a chymunedau Gogledd Cymru.

5 Parhaodd tanau yn yr awyr agored i fod yn faes ffocws i'r Gwasanaeth, a gallant fod yn ganlyniad i ddigwyddiadau tywydd eithafol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Maen nhw'n faes twf yn y Deyrnas Unedig (DU) o gymharu â'r gostyngiad mewn tanau mewn tai yn ystod y degawd diwethaf. Gall tanau yn yr awyr agored fod yn ddigwyddiadau arbennig o heriol i'r Gwasanaeth ddelio â nhw oherwydd eu natur afreolaidd, a'u maint, graddfa a dwyster posib, ac oherwydd yr amgylcheddau gwledig a gwledig-drefol lle maen nhw'n tueddu i ddigwydd.

6 Fel y'i diffinnir gan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC) mae tanau yn yr awyr agored yn dân mewn glaswelltiroedd, coetiroedd neu gnydau:

- sy'n cynnwys ardal ddaearyddol o un hectar o leiaf (10,000 metr sgwâr neu 100m x 100m);
- sydd â hyd fflam parhaus o fwy nag 1.5 metr;
- sy'n gofyn am adnodd neilltuedig o bedwar peiriant/adnodd tân ac achub o leiaf;
- sy'n gofyn bod adnoddau yn cael eu neilltuo am o leiaf chwe awr;
- sy'n peri bygythiad difrifol i fywyd, yr amgylchedd, eiddo a seilwaith.

7 Yn ystod y cyfnod adrodd, bu gostyngiad i 11 yn nifer y tanau yn yr awyr agored yr aeth cyfanswm cyfunol o 44 o gerbydau atyn nhw am dros 353 o oriau.

8 Mynychwyd 703 o alwadau diangen yn ystod y cyfnod adrodd, sef cynnydd o 4.8% o gymharu â'r un chwarter yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd hyn oherwydd cynnydd o 17.0% yn nifer y galwadau diangen didwyll yr aethpwyd atyn nhw o 241 i 282. Derbyniodd y Gwasanaeth 331 o alwadau diangen oherwydd larymau tân awtomatig (AFA) mewn lleoliadau masnachol, aethpwyd at 2 (0.6%) ac ni aethpwyd at 329 (99.4%) yn unol â'n polisi. Yn ogystal, derbyniwyd 134 o alwadau AFA mewn ysbytai, aethpwyd at 62 (46.3%) ac ni aethpwyd at 72 (53.7%).

9 Bu cynnydd yn nifer y tanau yr aethpwyd atyn nhw yng Ngharchar EF y Berwyn o 4 yn ystod chwarter cyntaf 2022/23, i 8 yn ystod y cyfnod adrodd.

10 Roedd argaeledd peiriannau yn unol â'r targed argaeledd 18 peiriant yn 100% yn ystod y cyfnod adrodd.

## Argymhelliad

11 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

## Gwybodaeth

12 **Yr Holl Ddigwyddiadau**

Parhaodd y duedd ar i fyny yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atyn nhw, gyda 3.8% yn fwy o ddigwyddiadau yn cael eu mynychu yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Aethpwyd at 1,635 o ddigwyddiadau o gymharu â 1,575 yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Cofnodwyd cynnydd yn nifer y digwyddiadau o bob math yr aethpwyd atyn nhw.

13 **Tanau**

Roedd y tanau a fynychwyd yn ystod y cyfnod adrodd wedi cynyddu 4.0% i 600 o gymharu â 577 yn yr un cyfnod yn 2022/3.

14 **Tanau Glaswelltir, Coetir a Chnydau**

Cynyddodd tanau glaswelltir, coetir a chnydau 3.5% i 148 o 143 yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Cynyddodd nifer y tanau glaswelltir, coetir a chnydau damweiniol eilaidd i 100 o 87, a thanau 'glaswelltir, porfa, pori ac ati' (24 o 28), a 'rhostir neu weundir' (34 i 37) oedd y prif gyfranwyr. Cofnodwyd cynnydd hefyd yn y categorïau 'gardd/rhandir preifat/domestig (llystyfiant nid offer/adeilad)' (6 i 9); 'gwrych' (4 i 14), a 'llystyfiant wrth ymyl y rheilffordd' (0 i 4).

15 **Tanau yn yr Awyr Agored**

Yn ystod y cyfnod adrodd, bu gostyngiad yn nifer y tanau yn yr awyr agored yr aethpwyd atyn nhw i 11 o 16 yn yr un cyfnod yn 2022/23, a mynychodd 44 cerbyd o gymharu â 47. Gostyngodd yr amser a dreuliwyd yn y digwyddiad i 353 awr, o gymharu â 370 awr yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

16 **Prif Danau**

Gwelwyd cynnydd yn y nifer o brif danau o 2.2% sef cynnydd o 226 i 231 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2022/23, fodd bynnag roedden nhw 1,3% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 234. Cynyddodd prif danau damweiniol 3.2% o 185 i 191 yn sgil cynnydd mewn prif danau damweiniol mewn anheddau. Roedd prif danau damweiniol 1.0% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 193. Gostyngodd nifer y prif danau bwriadol rhyw ychydig i 40 o 41 gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, ac roeddent 2.4% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 41.

17 **Tanau Eilaidd**

Cynyddodd tanau eilaidd, a oedd 4.7% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 340, 7.2% o 332 i 356, oherwydd cynnydd o 20.1% mewn tanau eilaidd damweiniol (189 i 227). Cofnodwyd cynnydd mewn tanau 'glaswelltir, coetir a chnydau' eilaidd damweiniol (87 i 100), 'arall yn yr awyr agored (gan gynnwys tir)' (57 i 72), a 'strwythurau awyr agored' (35 i 51). Gostyngodd tanau eilaidd bwriadol 9.8% (143 i 129), yn sgil gostyngiad o 14.0% mewn 'glaswelltir, coetir a chnydau' (50 i 43) a gostyngiad o 18.2% mewn 'arall yn yr awyr agored (gan gynnwys tir))' (66 i 54).

18 **Tanau Simnai**

Gostyngodd tanau simnai 31.6% o gymharu â'r un cyfnod yn 2022/23 o 19 i 13. Mae hyn 53.6% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 28.

19 **Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (TDC)**
Mynychodd y Gwasanaeth 9.9% yn fwy o danau damweiniol mewn cartrefi - 89 o gymharu â 81 yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Daw hyn yn sgil cynnydd mewn tanau damweiniol mewn cartrefi o fewn 'byngalo – meddiannaeth sengl' (8 i 17). Er gwaethaf hyn, mae TDC yn parhau 10.1% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 99, a gostyngodd TDC mewn 'tŷ - meddiannaeth sengl' a 'fflat/maisonette pwrpasol – amlfeddiannaeth' o 47 i 42 ac o 21 i 19 yn y drefn honno. Prif achosion tân yn yr TDC oedd 'coginio – coginio arall', (18 i 21), 'eitemau llosgadwy'n rhy agos i ffynhonnell wres (neu dân)' (21 i 15); 'nam ar offer neu gyfarpar' (8 i 12), a 'trin diofal – oherwydd gwaredu diofal' (7 i 10). Y brif ffynhonnell danio oedd 'cyfarpar coginio' a gynyddodd o 45 i 49 o gymharu â'r un cyfnod yn 2022/23.

20 **Anafiadau/Marwolaethau mewn Tanau Damweiniol mewn Cartrefi**
Ni fu unrhyw farwolaethau mewn TDC yn ystod chwarter cyntaf 2023/24, sy'n cyd-fynd â'r un cyfnod yn 2022/23. Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer yr anafusion mewn TDC o 10 i 28, gyda 2 berson yn dioddef anafiadau difrifol o gymharu â 0 yn ystod 2022/23.

21 **Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi**
Roedd synwyryddion mwg/gwres yn bresennol yn y mwyafrif o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y cyfnod adrodd (89.9%). Cafwyd cynnydd o 36 i 47 mewn TDC lle'r oedd synhwyrydd mwg/gwres wedi ei osod, wedi ei weithredu ac wedi seinio'r larwm.

22 Bu gostyngiad o 17 i 16 yn nifer y digwyddiadau lle'r oedd synhwyrydd mwg/gwres wedi'i osod, wedi ei weithredu ond heb seinio'r larwm.

24 Cafwyd cynnydd yn nifer y TDC lle nad oedd unrhyw synhwyrydd wedi'i osod, o 6 i 9. Lle'r oedd synhwyrydd wedi'i osod ac nad oedd wedi gweithio, roedd nifer y digwyddiadau wedi gostwng i 17 o 22.

25 **Prif Danau Bwriadol mewn Adeiladau Amhreswyl**
Bu cynnydd o 15 i 19 mewn prif danau bwriadol mewn adeiladau dibreswyl, gyda 8 yn digwydd yng Ngharchar y Berwyn.

26 **Galwadau Diangen**
Parhaodd y duedd ar i fyny mewn Galwadau Diangen gyda'r Gwasanaeth yn mynychu 703 o alwadau diangen – 4.8% yn fwy nag yn yr un cyfnod yn 2022/23 (671), a 11.2% yn fwy na'r cyfartaledd tair blynedd, sef 632. Bu gostyngiad o 2.2% o 416 i 407 yn y tanau a oedd wedi tarddu o systemau larwm tân awtomatig (LTA) ac roeddent yn cynrychioli 57.9% o'r galwadau diangen yr aethpwyd atyn nhw.

27 **Larymau Tân Awtomatig Amhreswyl**
Gostyngodd LTA amhreswyl 7.2% o 83 i 77. Y prif achosion dros LTA Amhreswyl yn gweithredu oedd eu bod yn 'ddiffygiol' (29 i 38); 'llwch' (6 i 9), ac 'wedi'i gychwyn yn ddamweiniol/yn ddiofal' (18 i 9).

28 **Larymau Tân Awtomatig Preswyl Arall**
Roedd gostyngiad o 43.8% mewn LTA 'preswyl-arall' o 32 i 18, gyda 'llety nyrsys'/meddygon' yn dangos gostyngiad sylweddol o 9 i 1. Fodd bynnag, cynyddodd 'cartref preswyl' o 3 i 5. Er mai prif achos gweithredu mewn 'preswyl-arall' oedd 'diffygiol', a welodd gynnydd bach o 4 i 5, gwelodd 'coginio/tost wedi llosgi' ostyngiad sylweddol o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, gan ostwng o 12 i 3. Cafwyd gostyngiadau hefyd o ran 'llwch' ac 'wedi'i gychwyn yn ddamweiniol/diofal' hefyd o 5 i 1, a 5 i 2 yn y drefn honno.

29 **Larymau Tân Awtomatig mewn Cartrefi**
Parhaodd LTA mewn anheddau duedd tuag i fyny, gan gynyddu 3.7% o 301 i 312, gyda 'fflat/maisonette pwrpasol - amlfeddiannaeth' yn cyfrannu'n bennaf at gyfanswm y digwyddiadau, gan godi o 103 i 114, ac yna 'byngalo – meddiannaeth sengl' yn cynyddu o 83 i 90. Gwelodd 'fflat/maisonette wedi'i drosi – amlfeddiannaeth' gynnydd o 4 i 14 hefyd. Fodd bynnag, cofnodwyd gostyngiadau yn 'tŷ - meddiannaeth sengl' a 'tai gwarchod hunangynhwysol', o 81 i 77 ac o 29 i 14 yn y drefn honno..

30 O'r 312 o LTA yn y Cartref, 'coginio/llosgi tost' oedd prif achos eu gweithredu, gan gynyddu o 162 i 184. Cofnodwyd cynnydd bychan hefyd mewn 'diffygiol (58 i 61), a 'llwch' (5 i 10). Gwelodd 'wedi'i gychwyn yn ddamweiniol/yn ddiofal' a 'stêm' ostyngiad sylweddol o 21 i 9 a 10 i 4 yn y drefn honno.

31 **Galwadau Diangen Didwyll**
Cynyddodd galwadau ffug didwyll 17.0% o 241 i 282, oherwydd cynnydd mewn 'annedd' (95 i 103); 'arall yn yr awyr agored (gan gynnwys tir))' (54 i 66); 'glaswelltir, coetir a chnydau' (21 i 31); 'galw diangen – eiddo heb ei ganfod' (19 i 24), ac 'offer a pheiriannau awyr agored' (4 i 9).

32 Cynyddodd galwadau diangen didwyll mewn 'annedd' 8.4% o 95 i 103 yn sgil cynnydd mewn 'fflat/maisonette pwrpasol - amlfeddiannaeth' (37 i 41), yn ogystal â 'tŷ - meddiannaeth sengl' (35 i 41).

33 Cynyddodd galwadau diangen didwyll 'arall yn yr awyr agored (gan gynnwys tir) 22.2% o 54 i 66 oherwydd cynnydd mewn 'sbwriel rhydd (gan gynnwys yn yr ardd)' (49 i 61).

34 Cynyddodd galwadau diangen didwyll 'glaswelltir, coetir a chnydau' 47.6% o 21 i 31 oherwydd cynnydd mewn 'gardd/rhandir preifat/domestig (llystyfiant nid offer/adeilad)' (13 i 21), a 'glaswelltir, porfa, pori ac ati' (3 i 9).

35 Cynyddodd galwadau diangen didwyll ar gyfer 'offer a pheiriannau awyr agored'
125.0% o 4 i 9, gyda 'cyfarpar/peiriannau awyr agored eraill' a 'barbeciw' yn cynyddu o 2 i 5 a 2 i 4 yn y drefn honno.

36 **Galwadau Diangen Maleisus**
Arhosodd nifer y galwadau diangen maleisus ar yr un lefel â'r un cyfnod y llynedd (14).

37 **Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig**
Cynyddodd digwyddiadau gwasanaeth arbennig 1.5% i 332 o 327 yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol, ac roeddent 72.9% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 192. Gellir priodoli hyn i'r newid o ran polisi gyda'r nod o gynyddu presenoldeb y gwasanaeth tân ac achub yn y gymuned pan fo angen.

38 **Gwrthdrawiadau ar y Ffordd (GTFf)**
Mynychodd y Gwasanaeth 45.3% yn fwy o wrthdrawiadau ar y ffordd (53 i 77), lle'r oedd 20 (26.0%) yn cynnwys tynnu personau'n rhydd. Lle cafodd y Gwasanaeth ei alw i wneud cerbyd neu safle'n ddiogel, cynyddodd ei bresenoldeb 119.0% (21 i 46). Er bod y Gwasanaeth wedi mynychu mwy o GTFf, gostyngodd canran y GTFf a oedd yn cynnwys rhyddhau neu dynnu personau o 43.4% i 26.0%, sy'n is na'r cyfartaledd tair blynedd o 35.3%.

39 **Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig 'Heblaw GTFf'**
Gostyngodd SSC 'heblaw GTFf' 6.9% (274 i 255). Y prif gyfrannwr at y gostyngiad oedd 'achub/rhyddhau pobl arall' a ostyngodd 65.7% (35 i 12). Cofnodwyd gostyngiadau hefyd o ran 'sicrhau mynediad/allanfa' (35 i 25); 'dim gweithredu (nid galwad diangen)' (26 i 15), a 'rhyddhau o lifft' (19 i 13). Fodd bynnag, bu cynnydd mewn 'digwyddiadau cynorthwyo anifeiliaid', a welodd gynnydd o 188.9% o 9 i 26, yn ogystal ag yn 'cynorthwyo asiantaethau eraill' a 'llifogydd', o 106 i 112, a 10 i 15 yn y drefn honno.

40 **Archwiliadau Diogel ac Iach (ADI)**
Cwblhaodd y Gwasanaeth 4,439 ADI ac roedd 1,353 (30.5%) ohonyn nhw'n yn rhai ADI oedd â blaenoriaeth uchel. O'r ADI oedd â blaenoriaeth uchel a gwblhawyd, roedd 783 (57.9%) yn atgyfeiriadau gan asiantaeth bartner.

41 **Perfformiad Gorsafoedd**
Cyflawnwyd argaeledd 18 peiriant wedi'i gynllunio ar bob un o 91 diwrnod (100%) chwarter cyntaf 2023/24.

42 **Absenoldebau Salwch**
Cafodd cyfanswm o 160 o achosion o absenoldeb salwch eu cofnodi yn ystod y chwarter. Mae hyn yn cyfateb i 5.03% o amser absenoldeb salwch.

**Goblygiadau**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae’n gymorth i’r Awdurdod fonitro ei berfformiad mewn perthynas â’r amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Corfforaethol 2021-24. |
| Cyllideb | Mae’n gymorth i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posib ar y gyllideb oherwydd gweithgarwch digwyddiadau annisgwyl. |
| Cyfreithiol | Mae’n gymorth i’r Awdurdod sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Peidio â bodloni'r gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch perfformiad a'i fonitro, a hynny'n gallu effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |

**Gwasanaeth Tân ac Achub**
Gogledd Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Adroddiad Monitro Perfformiad

**Am y chwarter cyntaf**

**Ebrill – Mehefin 2023**

**Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallent fod yn agored i fân newidiadau.**

# Cynnwys


**1 Pob Digwyddiad ..... 2**

Camau gweithredu a gymerwyd i wella perfformiad yn ystod y chwarter blaenorol ..... 3

**2 Tanau yn ôl Categori a Chymhelliant ..... 4**

Camau a gymerwyd i gefnogi lleihau digwyddiadau tân yn ystod y chwarter blaenorol ..... 5

**3 Prif Danau, yn ôl Math o Eiddo a Chymhelliant ..... 6**

**4 Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ..... 7**

Camau a gymerwyd i ddeall ein demograffig a'n risg cymunedol ymhellach yn ystod y chwarter blaenorol ..... 8

**5 Marwolaethau ac Anafiadau o Danau Damweiniol mewn Cartrefi ..... 9**

**6 Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (TDC) ..... 10**

Camau a gymerwyd i gefnogi cymunedau drwy gynyddu nifer y bobl sydd â larymau mwg ac addysg diogelwch yn ystod y chwarter blaenorol ..... 11

**7 Galwadau Diangen ..... 12**

Camau a gymerwyd i leihau LTA ysbytai yn ystod y chwarter blaenorol ..... 13

**8 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig ..... 14**

Camau a gymerwyd i leihau Galwadau Gwasanaeth Arbennig yn ystod y chwarter blaenorol ..... 15

**9 Gwrthdrawiadau ar y Ffordd a Thynnu'n Rhydd/Rhyddhau ..... 16**

Camau a gymerwyd i leihau GTFf yn ystod y chwarter blaenorol ..... 17

**10 Monitro yn erbyn Amcan Gwella a Llesiant 1 ..... 18**

10.1 Archwiliadau Diogel ac Iach ..... 18

Camau a gymerwyd i wella perfformiad Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod y chwarter blaenorol ..... 19


**11 Argaeledd Arfaethedig 18 Gorsaf ..... 20**

**12 Absenoldebau Staff ..... 21**

**Geirfa ..... 22**

## 1 Pob Digwyddiad

**1.1** Yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24, mynychodd y Gwasanaeth 1,635 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen, cynnydd o 3.8% ar yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol (1,575).




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y flwyddyn hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atyn nhw | **2023-24** | **1,635** | | | | **1,635** | ↑ 3.8% | 1,425 | ↑ 14.7% |
| | 2022-23 | 1,575 | | | | 1,575 | | | |
| Cyfanswm y tanau | **2023-24** | **600** | | | | **600** | ↑ 4.0% | 602 | ↓ 0.3% |
| | 2022-23 | 577 | | | | 577 | | | |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | **2023-24** | **332** | | | | **332** | ↑ 1.5% | 192 | ↑ 72.9% |
| | 2022-23 | 327 | | | | 327 | | | |
| Cyfanswm y galwadau diangen | **2023-24** | **703** | | | | **703** | ↑ 4.8% | 632 | ↑ 11.2% |
| | 2022-23 | 671 | | | | 671 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau gweithredu a gymerwyd i wella perfformiad yn ystod y chwarter blaenorol**

- **Cynnydd mewn LTA** – Rydym yn ymwybodol o’r cynnydd mewn LTA mewn lleoliadau annomestig. Daw’r rhan fwyaf o’r galwadau hyn o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) (nifer o resymau pam iddynt weithredu). Rydym yn parhau i weithio gyda BIPBC i’w lleihau. Yn dilyn ymddeoliad staff y gwasanaeth tân yn yr adran Amddiffyn, mae'r cysylltiad rhwng Ardal y Gorllewin a'r Dwyrain bellach yn cael ei ailsefydlu. Mae strategaeth waith newydd yn cael ei datblygu i leihau LTA.
    - Daw’r cynnydd o ran mynychu LTA mewn anheddau domestig oherwydd y cynnydd yn nifer y bobl fregus ac oedrannus sy'n defnyddio systemau monitro.

- **Cynnydd mewn Galwadau Gwasanaeth** Arbennig (SSC) – Daw’r cynnydd cyffredinol mewn SSC yn dilyn newid mewn polisi sy'n ymwneud â mynychu SSC, i wneud criwiau’n fwy gweladwy yn y gymuned.
    - Mae'n ymddangos bod y ffigwr wedi sefydlogi ac mae'n debyg i Ch1 y llynedd.
    - Mae tîm FS yn parhau i ddarparu ymyriadau GTFf i golegau ar draws ardal y gwasanaeth. Mae Stori Olivia wedi cael ei chyflwyno i dros 2,406 o fyfyrwyr mewn colegau, a phrentisiaid gweithle mewn sefydliadau fel Airbus UK.


## 2 Tanau yn ôl Categori a Chymhelliant

**2.1** Aethpwyd at gyfanswm o 600 o danau; cynnydd o 4.0% o 577 yn 2022/23.

**2.2** **Prif danau –** Bu cynnydd o 2.2% yn nifer y prif danau, o 226 i 231 o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol ac roeddent 1.3 % yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 234.

**2.3** **Tanau eilaidd –** Cafwyd cynnydd o 7.2% yn nifer y tanau eilaidd, o 332 i 356, sef 4.7% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 340.

**2.4** **Tanau simnai –** Cafwyd gostyngiad yn nifer y tanau simnai i 13 o 19 yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol, sef 53.6% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 28.




| | Prif Danau | | | | | Tanau Eilaidd | | | | | Tanau Simdde | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
| Bwriadol | 43 | 41 | 40 | 41 | 40 | 168 | 101 | 115 | 143 | 129 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Damweiniol | 195 | 183 | 211 | 185 | 191 | 151 | 293 | 178 | 189 | 227 | 29 | 35 | 31 | 19 | 13 |
| Cyfanswm | 238 | 224 | 251 | 226 | 231 | 319 | 394 | 293 | 332 | 356 | 29 | 35 | 31 | 19 | 13 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Danau | **2023-24** | **231** | | | | **231** | ↑ 2.2% | 234 | ↓ 1.3% |
| | 2022-23 | 226 | | | | 226 | | | |
| Tanau Eilaidd | **2023-24** | **356** | | | | **356** | ↑ 7.2% | 340 | ↑ 4.7% |
| | 2022-23 | 332 | | | | 332 | | | |
| Tanau Simnai | **2023-24** | **13** | | | | **13** | ↓ 31.6% | 28 | ↓ 53.6% |
| | 2022-23 | 19 | | | | 19 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i gefnogi lleihau digwyddiadau tân yn ystod y chwarter blaenorol**

Cafwyd cynnydd bach iawn o 6 prif ddigwyddiad damweiniol a fynychwyd sy'n parhau i fod yn is na'r cyfartaledd tair blynedd.

Gall cyfnod poeth a sych iawn yn ystod rhan gynnar Ch1 gyfrif am y cynnydd mewn tanau eilaidd damweiniol.

- Mae 4,439 ADI wedi'u darparu ar draws Gogledd Cymru yn unol â tharged ein strategaeth bresennol.

- Mae Rheolwyr Partneriaeth yn parhau i feithrin perthnasoedd ag asiantaethau allanol i annog atgyfeiriadau o ansawdd uchel.

- Mae gwaith gyda phartneriaid strategol wedi parhau, gan nodi risgiau posibl i leihau digwyddiadau tân bwriadol.

- Mae cynlluniau ymyrraeth ar gyfer cynnau tân bwriadol yn parhau i gael eu hwyluso yn fewnol a chan DangerPoint; 3 wedi'u darparu'n fewnol gan Dîm Lleihau Llosgi Bwriadol, a 12 Firesafe wedi'u darparu gan DangerPoint.


- Mae Bwrdd Tanau yn yr Awyr Agored Newydd i Gymru wedi'i sefydlu a Siarter Tanau yn yr Awyr Agored i Gymru Gyfan wedi'i drafftio i gefnogi'r ymdrech i leihau nifer y tanau eilaidd damweiniol a bwriadol.

- Mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd (CSG) yn parhau i weithio gyda Chyfathrebu Corfforaethol i hyrwyddo negeseuon ynghylch diogelwch a thanau yn yr awyr agored yn rhagweithiol ar draws pob platfform cyfryngau; er enghraifft, teithiau cerdded grŵp dementia, mynychu digwyddiadau Pride, cysylltu â grwpiau a chymdeithasau trwm eu clyw yn ogystal â chynhyrchu fideos newydd, ymweliadau ysbyty a thrafod gyda grwpiau o ofalwyr, a rhoi'r cyngor diweddaraf a'r arweiniad ar ddiogelwch yn y cartref i grwpiau lleiafrifol ar ein tudalennau ar y rhyngrwyd.

## 3 Prif Danau, yn ôl Math o Adeilad a Chymhelliant

**3.1** Yn ystod chwarter cyntaf 2023/24, dechreuwyd 40 o brif danau yn fwriadol, o gymharu â 41 yn ystod 2022/23.

**3.2** Yng Ngharchar y Berwyn, digwyddodd 8 tân bwriadol, o gymharu â 4 yn yr un chwarter yn y flwyddyn ariannol flaenorol.





| | Adeilad Cartref 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Adeilad Amhreswyl 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Adeilad Preswyl arall 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Cerbyd ('Fforddʼ, a 'Thrafnidiaeth arall') 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Awyr agored 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 107 | 109 | 120 | 90 | 93 | 48 | 52 | 56 | 57 | 53 | 5 | 1 | 6 | 7 | 6 | 67 | 47 | 54 | 53 | 68 | 11 | 15 | 15 | 19 | 11 |
| Bwriadol | 9 | 5 | 7 | 9 | 4 | 17 | 20 | 19 | 15 | 19 | 1 | 0 | 0 | 2 | 1 | 13 | 14 | 10 | 9 | 14 | 3 | 2 | 4 | 6 | 2 |
| Damweiniol | 98 | 104 | 113 | 81 | 89 | 31 | 32 | 37 | 42 | 34 | 4 | 1 | 6 | 5 | 5 | 54 | 33 | 44 | 44 | 54 | 8 | 13 | 11 | 13 | 9 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl brif danau bwriadol | **2023-24** | **40** | | | | **40** | ↓ 2.4% | 41 | ↓ 2.4% |
| | 2022-23 | 41 | | | | 41 | | | |
| Yr holl brif danau damweiniol | **2023-24** | **191** | | | | **191** | ↑ 3.2% | 193 | ↓ 1.0% |
| | 2022-23 | 185 | | | | 185 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 4 Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

**4.1** Aeth y Gwasanaeth i 89 o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y cyfnod adrodd, 8 (9.9%) yn fwy nag yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol (81). Fodd bynnag, mae hyn dal i fod 10.1% yn is na'r cyfartaledd 3 blynedd o 99.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | **2023-24** | **89** | | | | **89** | ↑ 9.9% | 99 | ↓ 10.1% |
| | 2022-23 | 81 | | | | 81 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i ddeall ein demograffig a'n risg cymunedol ymhellach yn ystod y chwarter blaenorol**

- Yn ystod Ch1, cwblhawyd cyfanswm o 4,439 o ADI, ac roedd 1,353 (30.5%) ohonynt yn flaenoriaeth uchel. Daeth 783 (57.9%) o'r rhain gan asiantaeth bartner.
- Cynyddodd targed ADI i'r criwiau WT/DC i 15 pob cyfnod o ddyletswydd o Chwarter 1.
- Mae Rheolwyr Partneriaeth yn parhau i archwilio perthnasoedd newydd gyda phartneriaid allanol i nodi'r bobl hynny sydd fwyaf agored i dân; a darparu cyngor ac ymyriadau addas iddyn nhw.
- Parhau i weithio gyda grwpiau celcio rhanbarthol i nodi pobl sydd mewn perygl.
- Cafodd ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol (Cymru a Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC)) eu cefnogi yn unol â'n calendr Grŵp Llywio Ymgyrchoedd ein hunain. Er enghraifft, teithiau cerdded grŵp dementia, mynychu digwyddiadau Pride, ymgysylltu â grwpiau a chymdeithasau trwm eu clyw yn ogystal â chynhyrchu fideo newydd, ymweliadau ysbyty ac ymgysylltu mewn cyfarfodydd grwpiau gofalwyr, a diweddaru cyngor ac arweiniad diogelwch yn y cartref i grwpiau lleiafrifol ar ein tudalennau ar y rhyngrwyd. Mae'r holl ymgyrchoedd wedi'u rhestru yn y calendr ymgyrchoedd.
- Mae diwrnodau allgymorth wedi'u targedu wedi parhau i gael eu rhedeg yn lleol a'u cefnogi gan asiantaethau allanol. Caiff taflenni eu dosbarthu mewn ardaloedd gan dimau Atal sydd wedyn yn dychwelyd i ddarparu ADI (Criwiau a HSSWs).
- Fe wnaeth ymgyrchoedd rhagweithiol ar ôl digwyddiadau mawr arwain at atgyfeiriadau ADI a sicrwydd cymunedol yn dilyn digwyddiadau.
- Mae'r bartneriaeth rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chartrefi Conwy, a Gofal ac Atgyweirio'n parhau i nodi atgyfeiriadau blaenoriaeth uchel - rydym yn ymgysylltu â phobl fregus sy'n gadael ysbytai/lleoliadau gofal i ddarparu ymyriadau lle bo angen.
- Mae addysgwyr wedi parhau i hyrwyddo perchnogaeth a phrofion larymau mwg fel rhan o'u darpariaeth ar draws ysgolion Gogledd Cymru. Cynhaliwyd 55 ymweliad, gan arwain at addysgu 5,824 o blant a phobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys 22 o ymweliadau Criw Craff.
- Parhau â'r rhaglen ail-gysylltu trwy gysylltu â meddianwyr sydd wedi cael ADI o'r blaen ac a gafodd eu nodi fel rhai blaenoriaeth uchel.
- Parhaodd y Rheolwyr Partneriaeth i fynychu oedolion agored i niwed a chyfarfodydd diogelu amlasiantaethol yn rheolaidd i helpu i nodi pobl sy'n agored i dân. Mae cynrychiolwyr o'r adran ART yn mynychu cyfarfodydd strategaeth amrywiol, Cynhadledd Achos Amddiffyn Plant, ynghyd â'r arweinydd Diogelu sy'n mynychu'r adolygiadau Dynladdiad Domestig a Bwrdd Diogelu Oedolion/Plant Gogledd Cymru.

## 5 Marwolaethau ac Anafiadau o Danau Damweiniol mewn Cartrefi

**5.1** Ni fu unrhyw farwolaethau mewn TDC yn ystod chwarter cyntaf 2023/24, sy'n cyd-fynd â'r un cyfnod y llynedd. Roedd 2 anaf difrifol a 10 mân anaf, o'i gymharu â 0 a 2 yn y drefn honno. Cynyddodd nifer yr archwiliadau rhagofalus o 2 i 6, a chynyddodd nifer y bobl a oedd angen cymorth cyntaf yn y fan a'r lle hefyd o 6 i 10.

| Difrifoldeb yr Anaf | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwiriadau Rhagofalus | 7 | 11 | 17 | 2 | 6 |
| Cymorth Cyntaf | 13 | 6 | 10 | 6 | 10 |
| Mân Anafiadau | 10 | 9 | 15 | 2 | 10 |
| Anafiadau Difrifol | 2 | 0 | 1 | 0 | 2 |
| Marwolaethau | 1 | 3 | 3 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 33 | 29 | 46 | 10 | 28 |


| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | **2023-24** | **28** | | | | **28** | ↑ 180.0% |
| | 2022-23 | 10 | | | | 10 | |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | **2023-24** | **0** | | | | **0** | → 0% |
| | 2022-23 | 0 | | | | 0 | |

| Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | Newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|
| 26 | ↑ 7.7% |

## 6 Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (TDC)

**6.1** Roedd larymau mwg/gwres yn bresennol yn y mwyafrif o TDC, er na wnaeth pob un weithredu. Mewn 9 o'r TDC, nid oedd synhwyrydd wedi'i osod.

**6.2** O'r 89 o danau damweiniol yn y cartref, roedd 82 wedi'u cyfyngu i ystafell tarddiad y tân, i'r eitem a daniwyd gyntaf, neu dim ond difrod gwres/mwg oedd yno.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Larwm mwg wedi gosod ac wedi seinio a rhoi rhybudd | **2023-24** | **47** | | | | **47** | ↑ 30.6% | 46 | ↑ 2.2% |
| | 2022-23 | 36 | | | | 36 | | | |
| Larwm mwg wedi'i osod, wedi seinio ond heb roi rhybudd | **2023-24** | **16** | | | | **16** | ↓ 5.9% | 18 | ↓ 11.1% |
| | 2022-23 | 17 | | | | 17 | | | |
| Larwm mwg heb seinio | **2023-24** | **17** | | | | **17** | ↓ 22.7% | 23 | ↓ 26.1% |
| | 2022-23 | 22 | | | | 22 | | | |
| Larwm mwg heb ei osod | **2023-24** | **9** | | | | **9** | ↓ 50.0% | 12 | ↓ 25.0% |
| | 2022-23 | 6 | | | | 6 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i gefnogi cymunedau drwy gynyddu nifer y bobl sydd â larymau mwg ac addysg diogelwch yn ystod y chwarter blaenorol**

- Wedi parhau i weithio gyda phartneriaid i nodi'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau a darparu cyngor ac ymyriadau addas iddynt.

- Cafodd allbwn ADI gan Griwiau a HSSW ei fonitro'n agos.

- Cynhaliwyd sicrwydd ansawdd ADI gan Reolwyr Partneriaeth.

- Parhaodd addysgu a chodi ymwybyddiaeth am leoli a gosod larymau mwg yn gywir yng nghartrefi pobl er mwyn atal achosion o weithredu diangen a galwadau diangen.


- Mae GTAGC wedi parhau i hyrwyddo profi larymau mwg yn rheolaidd gan ddefnyddio pob platfform cyfryngau.

- Parhaodd yr ymdrechion i sicrhau bod ein cyngor yn rhoi manylion a'r camau i'w cymryd os bydd tân yn cychwyn neu larwm mwg yn cael ei weithredu yn y cartref.

- Parhaodd addysgwyr i hybu perchnogaeth a phrofi larymau mwg fel rhan o'r ddarpariaeth ar draws ysgolion Gogledd Cymru.

## 7 Galwadau Diangen

**7.1** Mynychwyd 703 o alwadau diangen yn ystod y cyfnod adrodd, sef cynnydd o 4.8% o 671 yn yr un chwarter yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd gostyngiad o 2.2% mewn LTA o 416 i 407. Cynyddodd galwadau diangen didwyll o 241 i 282.




| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Larymau Tân Awtomatig | 288 | 282 | 311 | 416 | 407 | 336 |
| Didwyll | 273 | 330 | 278 | 241 | 282 | 283 |
| Maleisus | 12 | 17 | 6 | 14 | 14 | 12 |
| Cyfanswm | 573 | 629 | 595 | 671 | 703 | 632 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl alwadau diangen | **2023-24** | **703** | | | | **703** | ↑ 4.8% | 632 | ↑ 11.2% |
| | 2022-23 | 671 | | | | 671 | | | |
| Larymau Tân Awtomatig (LTA) | **2023-24** | **407** | | | | **407** | ↓ 2.2% | 336 | ↑ 21.1% |
| | 2022-23 | 416 | | | | 416 | | | |
| Galwadau diangen didwyll | **2023-24** | **282** | | | | **282** | ↑ 17.0% | 283 | ↓ 0.4% |
| | 2022-23 | 241 | | | | 241 | | | |
| Maleisus | **2023-24** | **14** | | | | **14** | → 0.0% | 12 | ↑ 16.7% |
| | 2022-23 | 14 | | | | 14 | | | |


*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i leihau LTA ysbytai yn ystod y chwarter blaenorol**

- Mae'r adran Diogelwch Tân yn ailsefydlu llinellau cyswllt cadarn gyda'r prif ysbytai yng Ngogledd Cymru i leihau LTA.
    - I gefnogi hyn, mae'r adran Diogelwch Tân wedi sefydlu cyfarfodydd ffurfiol bob dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener i adolygu pob digwyddiad a ddigwyddodd yn y cyfnod blaenorol. Mae pob digwyddiad yn cael ei adolygu i bennu'r rheswm gweithredu fel un damweiniol, maleisus, neu o ganlyniad i nam ar y system. Mae hyn yn galluogi Diogelwch Tân i ryngweithio â phob ysbyty i lywio ac addysgu wrth atal gweithredu LTA.
    - Yn ystod Ch1, derbyniwyd 134 o alwadau LTA ysbyty. Dyma'r nifer uchaf o alwadau yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mynychwyd 62, 1.6% yn llai nag yn yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol (63). Ni fynychwyd 72 o alwadau, 71.4% yn fwy nag yn yr un cyfnod yn 2022/23 (42).

## 8 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig

**8.1** Roedd digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ystod y cyfnod adrodd wedi cynyddu 1.5% i 332 o gymharu â 327 yn yr un cyfnod yn 2022/23. Bu cynnydd o 45.3 % o 53 i 77 mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd, tra gwnaeth digwyddiadau 'heblaw gwrthdrawiadau ar y ffordd' ostwng 6.9%, o 274 i 255. Roedd y cynnydd yn nifer y SSC yr aethpwyd atyn nhw i'w ddisgwyl yn dilyn penderfyniad y Gwasanaeth i gynyddu ei welededd yn y gymuned.




| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd | 118 | 79 | 121 | 274 | 255 |
| GTFf | 53 | 17 | 31 | 53 | 77 |
| Grand Total | 171 | 96 | 152 | 327 | 332 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl Ddigwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | **2023-24** | **332** | | | | **332** | ↑ 1.5% | 192 | ↑ 72.9% |
| | 2022-23 | 327 | | | | 327 | | | |
| Gwrthdrawiadau ar y Ffordd | **2023-24** | **77** | | | | **77** | ↑ 45.3% | 34 | ↑ 126.5% |
| | 2022-23 | 53 | | | | 53 | | | |
| Heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd | **2023-24** | **255** | | | | **255** | ↓ 6.9% | 158 | ↑ 61.4% |
| | 2022-23 | 274 | | | | 274 | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i leihau Galwadau Gwasanaeth Arbennig yn ystod y chwarter blaenorol**

- Mae'r rheswm dros bresenoldeb cynyddol GTAGC mewn SSC yn ganlyniad i benderfyniad ymwybodol a wnaed gan y sefydliad i gefnogi mwy o welededd yn y gymuned wrth i ni ddod allan o gyfyngiadau Covid-19.

- Mae tîm FS yn parhau i ddarparu "Stori Olivia" ar draws ardal y gwasanaeth. Cynhaliwyd 120 o sesiynau addysgol gyda 2,406 o bobl ifanc yn derbyn yr ymyriad hwn.


- Cefnogir NWP mewn nifer o fentrau diogelwch ar y ffyrdd sy'n cael eu cynnal mewn gorsafoedd tân, gan ddarparu cyflwyniad i'r rhai sy'n cael eu dal yn goryrru o fewn parth rheoledig.

- Cyflwyno ein cwrs "Biker Down" cyntaf a gafodd gefnogaeth dda iawn yng Ngorsaf Dân Y Rhyl. Mae'r cwrs hwn nid yn unig yn darparu cyngor diogelwch ar y ffyrdd, ond mae hefyd yn rhoi cyngor ac arweiniad achub bywyd i feicwyr a fydd gyntaf yn y fan a'r lle. Mae 5 digwyddiad arall yn cael eu cynnal eleni. Aeth 21 i'r sesiwn gyntaf a gynhaliwyd yn Y Rhyl, a bydd 4 o sesiynau eraill yn cael eu cynnal yn ystod y misoedd nesaf, gyda'r 2 sesiwn gyntaf eisoes yn llawn.

- Mae tîm Ffenics yn parhau i gynnwys diogelwch ar y ffyrdd fel rhan o'u cyrsiau. Darparwyd 6 cwrs yn chwarter un (55 o blant a phobl ifanc).

## 9 Gwrthdrawiadau ar y Ffordd a Thynnu'n Rhydd/Rhyddhau

**9.1** O'r 77 gwrthdrawiad traffig ffyrdd yr aethpwyd atyn nhw yn ystod chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2023/24, roedd 20 (26.0%) yn ymwneud â'r Gwasanaeth yn defnyddio offer i ryddhau o leiaf un person wedi'i anafu o'r cerbyd. Er bod 40 o ddigwyddiadau wedi arwain at anafiadau, dim ond mân anafiadau oedd gan y mwyafrif o'r rhai oedd wedi'u hanafu..




| | |
|---|---|
| **77** | o wrthdrawiadau ar y ffordd |
| **40** | o ddigwyddiadau lle'r oedd pobl wedi dioddef anaf |
| **20** | o ddigwyddiadau lle bu'n rhaid torri pobl allan / rhyddhau pobl |

| **Difrifoldeb anafiadau*** | **Nifer y bobl** |
|---|---|
| Archwiliad Rhagofalus | 4 |
| Cymorth Cyntaf | 16 |
| Mân Anafiadau | 26 |
| Anafiadau Difrifol | 19 |
| Marwolaethau | 4 |
| **Pan fo anafiadau oherwydd gwrthdrawiadau ar y ffordd yn digwydd – caiff y rhain eu cofnodi yn y system gofnodi fewnol yn yr un categori ag anafiadau tân.* | |

**Camau a gymerwyd i leihau GTFf yn ystod y chwarter blaenorol**


- Mae GTAGC yn rhanddeiliad ac yn gyfranogwr allweddol yng Ngrŵp Diogelwch ar y Ffordd Gogledd Cymru, ac yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno ymyriadau lle bo angen.

## 10 Monitro yn erbyn Amcan Gwella a Llesiant 1

1.1 *Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi a chadw'n ddiogel os ydyn nhw'n digwydd.*

### 10.1 Archwiliadau Diogel ac Iach

Cwblhaodd y Gwasanaeth 4.439 o Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod chwarter cyntaf 2023/24, gyda 1,356 (30.5%) ohonynt wedi'u cynnal mewn ymateb i atgyfeiriad gan asiantaeth bartner.




| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Risg Uchel | | | | | Risg Canolig | | | | | Risg Isel | | | | |
| Ddim wedi'i atgyfeirio gan Asiantaeth | 624 | 852 | 521 | 615 | 570 | 1,265 | 596 | 340 | 620 | 404 | 1,347 | 1,065 | 699 | 1,702 | 2,109 |
| Atgyfeiriwyd gan Asiantaeth | 734 | 532 | 596 | 943 | 783 | 172 | 107 | 144 | 303 | 134 | 362 | 461 | 280 | 349 | 439 |
| Cyfanswm | 1,358 | 1,384 | 1,117 | 1,558 | 1,353 | 1,437 | 703 | 484 | 923 | 538 | 1,709 | 1,526 | 979 | 2,051 | 2,548 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % yr holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd ac a oedd wedi dod drwy atgyfeiriad gan sefydliad partner | **2023-24** | **30.5%** | | | | **30.5%** | ↓ 13.4% | 34.6% | ↓ 11.9% |
| | 2022-23 | 35.2% | | | | 35.2% | | | |

*Mae'r ddwy golofn olaf yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i wella perfformiad Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod y chwarter blaenorol**

- Yn ystod Ch1, cwblhawyd cyfanswm o 4,439 ADI (yn unol â'r targed a osodwyd gan yr Awdurdod Tân o 17,500 ar gyfer y flwyddyn), ac roedd 1,353 (30.5%) ohonynt yn flaenoriaeth uchel. Daeth 783 (57.9%) o'r rhain gan asiantaeth bartner.

- Cynyddodd targed yr ADI ar gyfer criwiau gweithredol WT/DC i 15 yn ystod pob cyfnod o ddyletswydd o Chwarter 1.

- Mae Rheolwyr Partneriaeth yn parhau i feithrin perthnasoedd yn ogystal ag archwilio perthnasoedd newydd gyda phartneriaid allanol i nodi'r bobl hynny sydd fwyaf agored i dân; a darparu cyngor ac ymyriadau addas iddynt.

- Parhaodd y gwaith o ailgysylltu â'r prosiect SAWC's i dderbyn blaenoriaeth uchel ac mae'n cynnwys holl griwiau Amser Cyflawn, Criw Dydd, a WDSR. Mae De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru yn awyddus i ddysgu o'r fenter hon.

- Parhaodd y gwaith o ddarparu ymyrraeth bwrpasol neu wedi'i deilwra i'r rhai mwyaf agored i niwed yn y gymuned.


- Parhaodd yr amrywiaeth o ymyriadau i feddianwyr gynyddu, gan gynnwys offer arloesol fel Gardiau Stôf.

- Parhaodd presenoldeb mewn digwyddiadau perthnasol ac wedi'u targedu i hyrwyddo manteision ein gwaith ac annog atgyfeiriadau ADI.

## 11 Argaeledd Arfaethedig 18 Gorsaf

**11.1** Mae gan GTAGC 44 o orsafoedd tân gyda 54 peiriant ymateb - mae gan 8 gorsaf 2 bwmp, ac mae gan Wrecsam 3. Mae cynllunio ymlaen llaw yn digwydd bob dydd i ddefnyddio adnoddau i sicrhau bod 18 ar gael rhwng 0600 a 1800. Weithiau gall newidiadau byr rybudd arwain at ostyngiad nad oes modd eu datrys ar unwaith.

Yn ystod chwarter cyntaf 2023/24, cyrhaeddwyd y trothwy o 18 ar bob un o'r 91 diwrnod yn chwarter un. Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i'r trothwy gael ei ostwng i 18 peiriant, nid oes data i gymharu ar gael.



## 12 Absenoldebau Salwch

Nod y Gwasanaeth yw annog ei holl weithwyr i wneud y mwyaf o'u presenoldeb yn y gwaith tra'n cydnabod na fydd gweithwyr, o bryd i'w gilydd, yn gallu dod i'r gwaith oherwydd salwch. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar gyfer 2022, roedd y cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn **3.6%** ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus. Mae hyn yn is na'r hyn y mae GTAGC wedi'i adrodd yn ystod Ch1 blwyddyn ariannol 2023/24.

Yn ystod Ch1 blwyddyn ariannol 2023/24, cyflogwyd cyfanswm o **915** unigolyn gan GTAGC. Mae absenoldebau oherwydd salwch yn ystod Ch1 y flwyddyn ariannol 2023/24 yn cyfateb i gyfanswm o **5.03%.**

Fodd bynnag, mae heriau allweddol y mae pob gwasanaeth brys yn eu hwynebu o ran rheoli presenoldeb a chadw gweithwyr mewn gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion emosiynol a chorfforol sy'n unigryw lle mae'n bosibl y bydd yn rhaid i staff gweithredol aros i ffwrdd o'r gwaith yn hirach oherwydd anafiadau corfforol o gymharu â'r rhai mewn rolau anweithredol. Hefyd, mae angen i staff gweithredol fod yn gorfforol heini a bodloni'r safon ffitrwydd genedlaethol i'w galluogi i gyflawni eu rôl yn ddiogel ac yn effeithiol.

O gymharu â gwasanaethau brys eraill a sefydliadau sector cyhoeddus:

- Yr Heddlu (Cyhoeddwyd 12 Ionawr 2022) o Mae'r gyfradd absenoldeb gyfredol ar gyfer swyddfeydd yr heddlu a staff yn genedlaethol yn **9.4%**, yn ôl data a ryddhawyd gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC).

- GIG Cymru (Cyhoeddwyd 23 Tachwedd 2022) o Roedd gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gyfradd absenoldeb oherwydd salwch o **9.7%** yn ystod Ch1 2022. o Roedd cyfradd absenoldeb salwch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn **6.3%** yn ystod Ch1 2022

O fewn y chwarter, cofnodwyd cyfanswm o **160** achos o absenoldeb o ran salwch hirdymor a thymor byr gyda'i gilydd.

| | **Achosion** | **Absenoldeb Salwch %** |
|---|---|---|
| **Salwch Hirdymor** | 60 | 4.26% |
| **Salwch Tymor Byr** | 100 | 0.76% |
| **Cyfanswm** | **160** | **5.03%** |

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn cael ei roi o dan un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Dyma danau nad ydyn nhw'n danau simnai. Tanau sy'n digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, offer a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, fel pontydd, bocsys postio, twneli ayyb.<br>Gelwir tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion yno, os oes angen achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pump neu ragor o beiriannau tân atyn nhw. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br>Nid yw tanau eilaidd yn ymwneud ag anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedwar peiriant tân neu lai wedi mynd atyn nhw.<br>Fel arfer, tanau eilaidd ydy tanau sy'n digwydd mewn lleoliadau fel tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif danau), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau Simnai | Dyma danau mewn adeiladau sydd wedi'u meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br>Nid fydd tanau eilaidd yn ymwneud ag anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedwar peiriant tân neu lai wedi mynd atyn nhw. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maen nhw'n cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffordd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>ch) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond ar ôl cyrraedd y gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os bydd y peiriant tân yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |

| | |
|---|---|
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – (didwyll) | Dyma alwadau a wneir yn ddiffuant pan gredir bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – LTA | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maen nhw'n cynnwys larwm yn canu yn ddamweiniol neu pan fydd larwm yn canu a rhywun yn galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun sydd wedi ei enwebu o fewn sefydliad. |
| Adeilad – Cartrefi | Adeiladau sy'n fan preswyl, h.y. wedi'i feddiannu gan aelwydydd, ac eithrio gwestai, hosteli a strwythurau preswyl nad ydyn yn barhaol. |
| Adeilad – Amhreswyl | Adeiladau fel ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrïoedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, carchardai. |
| Adeilad – Preswyl Arall | Adeiladau fel gwestai, hosteli a sefydliadau preswyl, busnesau gwely a brecwast, cartrefi nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr. |
| Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall) | Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, awyrennau, cwch. |
| Awyr Agored | Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, bocsys post. |
| Tanau yn yr awyr agored | Tân mewn glaswelltir, coetir neu gnwd yr aeth 4 cerbyd neu fwy ato, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr. |
| Salwch Tymor Byr (STS) | Absenoldebau 27 diwrnod calendr a llai. |
| Salwch Hirdymor (LTS) | Absenoldebau 28 diwrnod calendr a mwy. |